

Crynodeb o'r Ymgynghoriad ynghylch Plant a Phobl Ifanc

Cynnig i gau Ysgol Lewis i Ferched a newid Ysgol Lewis Pengam i gyd-
addysg o fis Medi 2025

3 Mehefin 2024 – 15 Gorffennaf 2024



Cymunedau **Dysgu** Cynaliadwy 
Sustainable Communities for **Learning**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Cyngor Caerffili yn awyddus i wella amodau'r ysgol i godi safonau a rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn.

- Weithiau, gall ysgolion gael eu moderneiddio, eu trwsio, eu hadnewyddu neu eu hehangu, neu gellir hyd yn oed adeiladu ysgol newydd yn gyfan gwbl.
- **Weithiau nid yw ysgolion presennol yn y lle iawn bellach ac efallai y byddwn yn cynnig cau neu newid trefniadau ysgolion presennol**

Rhaid i'r Cyngor ddilyn deddfwriaeth Llywodraeth Cymru sef **Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018** os bydd am wneud unrhyw newidiadau i ysgol.

Mae'n rhaid i'r Cyngor ysgrifennu at nifer o grwpiau fel Rhieni, Penaethiaid a Staff i ddweud wrthyn nhw am yr hyn y maen nhw'n bwriadu ei wneud a chasglu barn.

Mae angen i'r Cyngor hefyd gael eich barn am yr hyn rydyn ni'n ei gynnig ar gyfer eich ysgol oherwydd gallwch chi ein helpu ni i lunio'r hyn fydd yn digwydd.

Mae llawer o wybodaeth y mae angen i ni ei chynhyrchu a'i rhoi ar ein gwefan.
<https://trafodaeth.caerphilly.gov.uk/ysgol-lewis-i-ferched-a-ysgol-lewis-pengam>

Mae'r Cyngor yn cynnig gwneud y canlynol:

- Cau Ysgol Ferched Lewis
- Newid o un rhyw i gyd-addysg yn Ysgol Lewis Pengam
- Cychwyn y newidiadau o fis Medi 2025
- Rheoli symudiad yr holl ddisgyblion i safle Ysgol Lewis Pengam dros nifer o flynyddoedd
- Cefnogwch y ddwy ysgol i helpu i sicrhau bod pawb yn ymgartrefu

Ychydig o resymau pam y cynigir hyn:

- ✓ Mae argymhelliad ar gyfer newid wedi dod gan fwrdd o arbenigwyr, gan gynnwys Penaethiaid
- ✓ Mae Estyn wedi gofyn inni leihau nifer y lleoedd dros ben yn ein hysgolion uwchradd
- ✓ Bydd y cynnig yn dod â Chaerffili yn unol â gweddill Cymru gan mai ni yw'r unig Awdurdod sydd ag Ysgol i Ferched a Bechgyn ar wahân
- ✓ Dod â theuluoedd at ei gilydd a allai gael eu gwahanu yn 11 oed
- ✓ Llai o Adeiladau i'w cynnal sy'n arbed arian ac yn helpu'r amgylchedd

Mae eich barn chi'n bwysig ac rydyn ni'n croesawu unrhyw sylwadau p'un a ydych chi'n cefnogi ein cynnig, yn erbyn ein cynnig, neu'n ansicr y naill ffordd neu'r llall

Dyma cyfle i chi ofyn cwestiynau!

- A ydych chi'n cytuno â'r hyn rydyn ni'n bwriadu ei wneud?
- Oes gennych chi unrhyw syniadau am yr hyn yr hoffech chi ei gael mewn ysgol newydd?
- A oes gennych unrhyw syniadau am sut y gellir newid y cynnig hwn i gael (mwy o) effaith gadarnhaol ar y Gymraeg?
- Oes gennych chi unrhyw syniadau eraill yr hoffech chi i ni eu hystyried?

Bydd eich sylwadau chi'n cael eu hychwanegu at Adroddiad y bydd pawb yn gallu ei weld a bydd yn helpu'r Cyngor i benderfynu beth i'w wneud nesaf.

Mae sawl ffordd o roi eich barn i'r Cyngor

- Cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein ar wefan y Cyngor
- Cwblhau'r ffurflen ymateb sydd wedi'i hatodi i'r Ddogfen Ymgynghori a'i dychwelyd i Dîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yng Nghaerffili
- Anfon eich sylwadau dros e-bost i Dîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yng Nghaerffili

Y ffordd hawsaf i chi yw cymryd **rhan yn y sesiwn hon a bydd eich athro yn rhoi adborth ar eich sylwadau.**

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad yma **15 Gorffennaf 2024**

Rhagor o Wybodaeth

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad yma
15 Gorffennaf 2024**

Ymgynghoriad 'Cyd-Addsg Lewis'

d/o Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu
Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Tŷ Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
CF82 7PG



ysgolionyr21ainganrif@caerffili.gov.uk

<https://trafodaeth.caerphilly.gov.uk/ysgol-lewis-i-ferched-a-ysgol-lewis-pengam>